IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 21 GORFFENNAF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Williams a/ac Murphy |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 : CAIS AM GYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - VINTAGE TEA AND COFFEE CO LTD

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Steven Barker a Charlotte Barker |
| Awdurdodau Cyfrifol: | PC Tim Davies, Heddlu De Cymru<br>PC Rob Gunstone, Heddlu De Cymru<br>Mandy Ewington, Trwyddedu, Cyngor Caerdydd<br>Stephanie Witham, Rheoli Llygredd, Cyngor Caerdydd |

Y Cais

Cais i roi «Application_Type» a dderbyniwyd gan «Licensee_Title» «Licensee_Name»Vintage Tea & Coffee Co Ltd parthed Uned 2-6, Arcêd y Castell, Stryd Fawr, Caerdydd «Premises_Postcode».

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am Drwydded Safle ar gyfer y safle uchod ac wedi disgrifio'r safle fel a ganlyn:

> "Bar sudd ffrwythau yn ystod y dydd gan gynnwys coffi, sudd iachus, coctels, gwin, jin ayb. Bar Coctels gyda'r nos yn cynnig plateidiau bach/tapas am ddim".

Cynigir y gweithgaredd trwyddedadwy canlynol:

1. Cynnig cerddoriaeth fyw:
2. Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 18:00 i 23:00
   Dydd Sul 18:00 i 22:00

3. Cynnig cerddoriaeth wedi ei recordio:
   Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 08:00 i 02:00
   Dydd Sul 10:00 i 23:00

4. Darparu lluniaeth hwyr y nos:
   Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 23:00 i 02:00

5. Cynnig alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
   Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 10:00 i 02:00
   Dydd Sul 10:30 i 23:00

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Anerchodd PC Tim Davies yr Is Bwyllgor.  Hysbyswyd aelodau fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu'r cais ar sail atal niwsans cyhoeddus ac atal trosedd ac anrhefn.  Roedd y safle wedi ei leoli yn Arcêd Stryd y Castell, o fewn Ardal Traweffaith Cronnol Cyngor Caerdydd gyda Heddlu De Cymru o'r farn y byddai'r cais yn debygol o gael effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Cyfeiriodd PC Davies at ddata ystadegol am ddigwyddiadau a nodwyd a throseddau ar y Stryd Fawr ac ardal Heol yr Eglwys Fair.  Gofynnwyd i aelodau nodi y cafwyd lleihad cyffredinol yn y troseddau a gofnodwyd yn yr ardal ers 2016. Cyflwynodd PC Davies dystiolaeth am nifer y safleoedd trwyddedig yn yr ardal gyfagos i'r safle hwn a'r oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol.

Nododd PC Davies ei fod wedi cwrdd â'r ymgeiswyr ar y safle.  Fe'i hysbyswyd bod yr ymgeiswyr yn bwriadu gweithredu'r lleoliad yn bennaf fel bar.  Nid oedd wedi llwyddo i sefydlu gosodiad y safle a pha un ai a fyddai gwasanaeth gweinwyr/gweinyddesau ai peidio.  Roedd ardal allanol hefyd wedi ei gynnwys yn y cais.

Hysbyswyd aelodau na fyddai fawr ddim bwyd o sylwedd ar gael yn ystod oriau agor ac felly roedd y gofyn ar i Aelodau gymeradwyo trwydded safle ar gyfer bar fyddai ar agor tan 0200 o fewn ardal gyda lefel uchel o drosedd wedi ei gofnodi.  Roedd PC Davies o'r farn pe caniateid y cais y byddai'r effaith ar yr amcanion trwyddedu yn rhai negyddol.

Fodd bynnag, os oedd yr Is bwyllgor am ffafrio caniatáu'r cais, gofynnodd PC Davies i'r Is-Bwyllgor ystyried gosod 14 o amodau ar y drwydded safle, yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru, y teimlid fyddai yn lliniaru rhyw gymaint ar effaith y masnachu ar yr amcanion trwyddedu.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Is Bwyllgor.  Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddent yn barod i dderbyn pob un o'r amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru, gydag un diwygiad.  Sef, bod  goruchwylydd drws cymeradwy gan yr ADD ar gael o 2100 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn, yn hytrach na 1900 fel a nodwyd gan Heddlu De Cymru.

Cadarnhaodd PC Davies nad oedd gan Heddlu De Cymru unrhyw bryderon parthed rheolaeth ar safleoedd a weithredid gan yr ymgeiswyr hyn nac addasrwydd yr ymgeiswyr eu hunain.  Nid oedd unrhyw hanes o  broblemau ar y safle a weithredid gan yr ymgeiswyr, sydd wedi ei leoli gyferbyn â'r safle hefyd yn Arcêd Stryd y Castell.  Roedd y prif bryderon yn ymwneud â lefel uchel y troseddu ar y Stryd Fawr a Heol yr Eglwys Fair.  Roedd y safle wedi ei leoli y tu mewn i'r parth traweffaith cronnol ac, felly, roedd y disgwyliad ar i'r ymgeiswyr ddangos na fyddai yna unrhyw effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Holodd Aelod pam fod Heddlu De Cymru wedi awgrymu i werthiant alcohol ddod i ben am 0100 yn hytrach na'r 0200 yn y cais.  Dwedodd PC Davies fod troseddu yn cynyddu yn hwyrach gyda'r nos.  Oriau brig ar gyfer digwyddiadau troseddol oedd rhwng 0200-0300.  Nodir problemau pan fo niferoedd mawr o bobl yn gadael safleoedd trwyddedig ac felly gwell yw cael amseroedd cau yn amrywio.  Nododd

aelodau na nodwyd unrhyw droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus ar y Stryd Fawr i Heddlu De Cymru yn y 6 mis diwethaf.

Siaradodd Mandy Ewington o adran drwyddedu Cyngor Caerdydd ger bron yr Is Bwyllgor. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Cyngor Caerdydd yn gwrthwynebu'r cais. Cyflwynwyd y polisi parth traweffaith cronnol yn sgil lefelau uchel troseddu ac anrhefn yng Nghanol y Ddinas. Gwnaed y sylwadau ar y seiliau hynny. Roedd yna ragdybiaeth y byddai pob cais am drwydded safle newydd o fewn y parth yn cael eu gwrthod ac roedd y cais yn herio'r polisi hwnnw. Hysbyswyd aelodau y byddai gwerthu mwy o alcohol mewn ardal oedd yn llawn alcohol eisoes yn debygol o gael effaith negyddol ar amcanion trwyddedu. Gofynnwyd i aelodau roi ystyriaeth lawn i'r polisi wrth wneud eu penderfyniad.

Gofynnodd aelodau i swyddogion nodi tra bod eu sylwadau yn nodi sail eu gwrthwynebiad, ni chynigwyd tystiolaeth ac nid oedd y sylwadau yn amlinellu pam y byddai'r cais yn debygol o achosi problemau.

Cadarnhaodd Mandy Ewington y byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn cefnogi cyflwyno'r amodau a nodwyd yn y sylwadau gan Heddlu De Cymru.

Cyflwynodd Stephanie Williams o Rheoli Llygredd, Cyngor Caerdydd eu sylwadau nhw. Roedd Rheoli Llygredd yn gwrthwynebu'r cais ar sail atal niwsans i'r cyhoedd. Roedd preswylwyr yng nghyffiniau'r safle eisoes yn profi problemau gyda'r safleoedd presennol o safbwynt niwsans sŵn. Hysbyswyd aelodau fod Stephanie Witham wedi cysylltu â'r ymgeisydd ac awgrymwyd nifer o fesurau lliniaru fel amodau ar gyfer drwydded safle.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Cyflwynodd Steven Barker y cais. Hysbyswyd aelodau fo aelodau o deulu Mr Barker wedi bod yn masnachu yn yr ardal ers 1982 a thros y blynyddoedd fod y busnes wedi addasu wrth i'r ardal newid. Mae Cwr y Castell yn gartref i nifer o fusnesau bach da o ansawdd sef tai bwyta a chaffis yn bennaf. Roedd Mr Barker yn adeiladu sylfaen busnes a chynnig o safon i sail cwsmer cosmopolitan a thrwy wneud hynny, awgrymodd Mr Barker ei fod yn cynnig rhywbeth gwahanol ac yn tynnu pwysau oddi ar ardaloedd problematig mewn rhannau eraill o'r ddinas.

Roedd y safle ar hyn o bryd yn cael eu hail wampio er mwyn cynnig amgylchedd o ansawdd. Roedd y busnes yn ymrwymedig i adeiladu ei broffil cwsmeriaid ac yn cydnabod yr angen i fod yn ofalgar o effaith y busnes ar fywydau preswylwyr lleol. Fel y tenantiaid mwyaf yn yr ardal mae'r ymgeiswyr wedi ymrwymo i'r ardal ac yn barod i fynd i'r afael ag unrhyw fater neu broblem yn syth.

Gan gyfeirio at y cwynion am sŵn y cyfeiriwyd atynt gan y swyddogion, Nododd Mr Barker ei fod yn ymwybodol o'r problemau hyn yn y gorffennol. Dywedodd wrth yr Is Bwyllgor fod cwynion yn anorfod oherwydd rheolaeth wael ar y safleoedd hynny. Fodd bynnag roedd y safleoedd yma wedi eu rheoli yn dda ac y byddent dan reolaeth.

Yn ystod y dydd byddai'r safle yn gweithredu fel bar sudd ffrwythau/siop goffi yn cynnig coffi, sudd a saladau iachus. Gyda'r nos byddai'r bar coffi yn cynnig gwin,

coctels, jîns a diodydd alcoholig eraill o safon.  Byddai plateidiau bychain a thapas hefyd yn cael eu gweini.

Roedd Mr Barker yn rhagweld cyfnod tawel ar ddechrau gyda'r nos gyda'r lleoliad yn prysuro ar gyfer diodydd ar ôl swper.  Nid oedd gofyn felly am yr amod ar gyfer staff drws a byddai'n gosod straen ychwanegol ar y busnes.  Fodd bynnag, os mai'r achos fyddai y byddai gofyn cael staff ar y drws yn gynharach ar nosweithiau Gwener a Sadwrn yna rhoddwyd ymrwymiad y byddai'r busnes yn eu darparu.  Roedd yr ymgeiswyr yn barod i dderbyn yr holl amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru.  Cytunodd yr ymgeiswyr hefyd ar yr amodau canlynol a awgrymwyd gan Rheoli llygredd:

1. Hysbysiadau clir i gael eu gosod mewn mannau strategol ger pob mynedfa/allanfa, yn gofyn i'r cyhoedd barchu anghenion preswylwyr gerllaw ac i adael y safle a'r ardal yn dawel a pharchus.
2. Byddai pob goleuo y tu allan i'r safle yn cael ei osod a'i sgrinio mewn modd fel na fyddai'n amharu ar breswylwyr gerllaw.
3. Byddai cais i gwsmeriaid beidio sefyllian yn siarad yn uchel y tu allan i'r safle.
4. Byd y trwyddedai yn sicrhau y byddai staff sydd yn cyrraedd yn gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos at ddibenion y busnes yn ymddwyn yn y fath fodd fel ag i osgoi tarfu ar breswylwyr gerllaw.
5. Ni fyddai sbwriel a biniau yn cael eu symud rhwng 2300 a 0900 er mwyn osgoi tarfu posib.
6. Bydd holl ddrysau a ffenestri'r safle yn aros ynghau (ac eithrio i adael pobl i mewn ac allan) yn ystod perfformiadau adloniant.
7. Rhaid i bob adloniant wedi ei reoli ar ffurf cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio gael ei chwarae drwy ddyfais cyfyngu sŵn.  Rhaid gosod y cyfyngydd ar lefel a gaiff ei gytuno gydag adran reoli llygredd yr awdurdod, sy'n sicrhau nad yw'r gerddoriaeth yn creu niwsans cyhoeddus

Holodd yr aelodau gwestiynau ynghylch y bwyd oedd i gael ei gynnig a'r mathau o ddiodydd i gael eu gweini.  Dywedwyd wrth yr aelodau fod y safle yn un bychan i ddim mwy na 95 o bobl.

Trafododd yr aelodau, yr ymgeiswyr a'r awdurdodau cyfrifol yr amser dechrau o 1900 ar gyfer staff drws ADD ar benwythnosau.  Holodd yr aelodau a fyddai Heddlu De Cymru yn torri'r oriau i 2100 os oedd yr ymgeiswyr yn derbyn amod oedd yn mynnu bod 70% o'r ardal fasnachu wedi ei neilltuo i fyrddau a chadeiriau, yn unol â safleoedd tebyg eraill yn yr ardal.  Cytunodd pob parti ar yr amodau hyn.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau wedi'u hawgrymu gan yr ymgeiswyr.